OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2019 No. 370

Rheoliadau Pysgodfeydd a Rheoli Morol (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016

4.—(1) Mae Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad o "gweithrediad a gymeradwywyd", ar y diwedd, mewnosoder "(gweler paragraff 3)";

(ii) yn y diffiniad o "person awdurdodedig", hepgorer ", ac mae'n cynnwys unrhyw swyddog y Comisiwn a benodwyd yn briodol ac sy'n mynd gyda'r person awdurdodedig hwnnw";

(iii) hepgorer y diffiniad o "y Comisiwn";

(iv) hepgorer y diffiniad o "cymorth yr UE";

(v) yn y diffiniad o "gweithrediad", ym mharagraff (b), yn lle "cymorth yr UE" rhodder "cymorth yn unol â Rheoliad 508/2014".

(b) ar ôl paragraff (2), mewnosoder—

"(3) Er mwyn osgoi amheuaeth, mae "gweithrediad a gymeradwywyd" yn cynnwys gweithrediad a gymeradwywyd mewn ysgrifen gan Weinidogion Cymru i gael cymorth ariannol o dan reoliad 4 cyn y diwrnod ymadael."

(3) Yn rheoliad 8(2)(d), yn lle "cymorth yr UE" rhodder "cymorth yn unol â Rheoliad 508/2014".

(4) Yn rheoliad 11—

(a) hepgorer paragraff (1)(j)(i);

(b) hepgorer paragraff (3).

(**1**) O.S. 2016/665 (Cy. 182).